Taflen 3

Activity 8: Prydain a Cholled Etifeddol - Rhan 2

USC Shoah Foundation | IWITNESS

JHASW/CHIDC

Taflen Waith Myfyrwyr

Tasg 1

Yn eich barn chi, pa fanteision sydd i ddysgu am yr Holocost gan oroeswr yr Holocost? Er enghraifft, meddyliwch am y gwahaniaeth rhwng dysgu am ddigwyddiad gan rywun a brofodd y digwyddiad o'i gymharu â dysgu o lyfr hanes neu ffynhonnell hanesyddol arall.

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Tasg 2

Nawr darllenwch y bywgraffiad canlynol ar gyfer Irene Kirstein Watts:

Ganed Irene Kirstein Watts ar 24 Mai 1931 ym Merlin, yr Almaen. Fe'i magwyd mewn teulu Iddewig Uniongred. Cafodd Irene a'i theulu eu herlid gan y Natsïaid yn ystod y cyfnod cyn y rhyfel a chafodd ei thad, Ziegmund Kirstein, ei garcharu yng ngwersyll crynhoi Sachsenhausen. Ym mis Rhagfyr 1938, aeth Irene (wyth oed) ar fwrdd y Kindertransport i'r Deyrnas Unedig. Fe fuodd hi'n byw yn Lloegr i ddechrau ond pan ddechreuodd y rhyfel, symudwyd hi i Lanelli, Cymru a chafodd ei maethu yn Llundain yn ddiweddarach. Dihangodd rhieni Irene i'r Deyrnas Unedig yn ystod y rhyfel ac yn y diwedd buont yn byw yn Abertawe. Ymfudodd Irene, ei gŵr a'u pedwar o blant i Ganada ym 1968.

Cafodd Irene ei chyfweld ar 28 Mehefin 1998 yn White Rock, British Columbia, Canada.

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

Taflen Waith Myfyrwyr

Tasg 2 (parhad)

Nesaf, edrychwch ar y ffotograff hwn o dad Irene, Ziegmund Kirstein.

Ziegmund Kirstein, tad Irene Kirstein Watt yn Abertawe, 1950au.

Delwedd o gyfweliad Irene Kirstein Watts o archif USC Shoah – The Institute for Visual History and Education, 1998. Am ragor o wybodaeth: http:// sfi.usc.edu/.

Gan weithio mewn parau/grwpiau, disgrifiwch y ffotograff. Ceisiwch ateb cwestiynau fel:

- Beth allwch chi ei weld yn y ffotograff?
- Ble a phryd ydych chi'n meddwl y tynnwyd y llun?
- Pa argraff mae'r ffotograff yn ei roi i chi o dad Irene?
- Pa agweddau o'r ffotograff sy'n rhoi'r argraff hon i chi?
- Beth ydych chi eisiau gwybod mwy amdano?

.....

.....

.....

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales /

Activity 8: Prydain a Cholled Etifeddol - Rhan 2

Taflen Waith Myfyrwyr

Tasg 2 (parhad)

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Nesaf, darllenwch y crynodeb a ganlyn o bolisi llywodraeth Prydain ar 'gaethiwo' [internment] yn ystod yr Ail Ryfel Byd:

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd gan lywodraeth Prydain bolisi o gaethiwo (carcharu heb brawf) dynion a rhai merched yr ystyrid eu bod yn 'estroniaid y gelyn'. Roedd y rhain yn bobl o wladwriaethau'r gelyn oedd yn byw ym Mhrydain - Almaenwyr, Awstriaid, ac Eidalwyr yn ddiweddarach. Cafodd 'estroniaid y gelyn' eu categoreiddio gan yr awdurdodau yn ôl lefel y risg diogelwch y barnwyd eu bod yn ei pheri. I ddechrau, dim ond y rhai y nodwyd eu bod yn risg uchel a gafodd eu caethiwo, a chafodd ffoaduriaid Iddewig eu nodi i raddau helaeth fel rhai risg isel felly nid oeddent yn wynebu cael eu caethiwo. Fodd bynnag, erbyn Mai 1940, roedd pryder difrifol ym Mhrydain wrth i ymosodiad gan yr Almaen ymddangos fel ei fod ar fin digwydd. Arweiniodd yr ofnau hyn at gaethiwo grŵp llawer mwy o 'estroniaid', gan gynnwys miloedd o Iddewon oedd wedi ffoi rhag y Natsïaid. Cawsant eu carcharu mewn amrywiaeth o wersylloedd dal a pharhaol yn y DU ac ar Ynys Manaw ac, yn ddiweddarach, yn Awstralia a Chanada.[1]

Ysgrifennwch unrhyw wybodaeth newydd a ddysgoch o ddarllen y crynodeb hwn.

[1] Roger Kershaw, *Collar the lot! Britain's policy of internment during the Second World War* (2015) <https://blog.nationalarchives.gov.uk/collar-lot-britains-policy-internment-second-world-war/> [cyrchwyd 22 Mai 2022].

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

Adnodd wedi'i greu gan Emelye Clifford, Gwirfoddolwr JHASW/CHIDC

Taflen Waith Myfyrwyr

Tasg 2 (parhad)

.....

.....

.....

Nawr gwyliwch **glip fideo 1**, lle mae Irene yn disgrifio beth ddigwyddodd i'w thad yn ystod ac ar ôl y rhyfel. Mae'r fideo yn cynnwys cyfeiriad at Judith Kirstein, chwaer iau Irene.

[Sylwer: ***Rhybudd: Hunanladdiad*** - mae'r fideo hwn yn disgrifio hunanladdiad tad Irene.]

Yna, gan weithio mewn parau/grwpiau, atebwch y cwestiynau isod:

Pam ydych chi'n meddwl y penderfynodd llywodraeth Prydain gaethiwo tad Irene a ffoaduriaid Iddewig eraill yn 1940? A yw hyn yn syndod ichi o ystyried bod y ffoaduriaid hyn wedi ffoi o'r Almaen i ddianc rhag erledigaeth y Natsïaid?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Beth mae'r polisi caethiwo yn ei awgrymu am yr agweddau ym Mhrydain tuag at ffoaduriaid ym Mhrydain yn ystod y rhyfel?

.....

.....

.....

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

Taflen Waith Myfyrwyr

Tasg 2 (parhad)

Beth mae trasiedi hunanladdiad tad Irene ar ôl diwedd y rhyfel yn ei awgrymu i chi am drawma goroesi'r Holocost?

.....

.....

.....

A oedd unrhyw beth y gwnaethoch ei ddysgu o dystiolaeth fideo Irene a fyddai wedi bod yn anodd neu'n amhosibl ei ddarganfod o'r ffynonellau eraill a ddarparwyd?

.....

.....

.....

Tasg 3

Nawr, darllenwch y darn byr hwn o wefan Yad Vashem sy'n disgrifio'n gryno rai o'r heriau a wynebwyd gan oroeswyr yr Holocost a gafodd eu rhyddhau ar ddiwedd y rhyfel.[2]

Beth Oedd Rhyddhad yn ei Olygu i Oroeswyr Iddewig?

Dylai rhyddhad fod wedi bod yn ddiwrnod hapus i'r goroeswyr. O'r diwedd, roedden nhw'n rhydd o'r ofn cyson o farwolaeth roedden nhw wedi byw ag ef ers cymaint o flynyddoedd. I'r goroeswyr Iddewig, fodd bynnag, roedd rhyddhad wedi dod yn rhy hwyr. Roedd cymunedau cyfan yn nwyrain Ewrop, yn enwedig, wedi'u dileu a'u holl Iddewon wedi'u lladd. Roedd dros 90% o'r gymuned Iddewig yng Ngwlad Pwyl, y fwyaf yn Ewrop, wedi marw.

[2] Yad Vashem, *Liberation and Survival* <https://www.yadvashem.org/education/educational-materials/lesson-plans/liberation-and-survival.html> [cyrchwyd 22 Mai 2022].

European Commission
© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru
© 2022 USC Shoah Foundation

Taflen Waith Myfyrwyr

Tasg 3 (parhad)

Beth Wnaeth y Goroeswyr ar ôl cael eu Rhyddhau?

Erbyn diwedd 1945, roedd yr Iddewon hynny a oedd wedi llwyddo i oroesi gwersylloedd llafur gorfodol, gwersylloedd crynhoi, gwersylloedd difodi, a gorymdeithiau marwolaeth, neu a oedd wedi goroesi yn cuddio, mewn coedwigoedd, neu gyda chymorth unigolion lleol, eisiau mynd 'adref'. Canfu rhai nad oedd ganddynt gartrefi na theuluoedd ar ôl. Canfu eraill fod mynd adref yn golygu taith beryglus trwy Ewrop anhrefnus ar ôl y rhyfel. Roedd yn rhaid i'r rhai a lwyddodd i gyrraedd eu hen gartrefi wynebu realiti newydd: roedd y poblogaethau lleol yn eu cartrefi, yn enwedig yn nwyrain Ewrop, yn wrthsemitaidd ac yn elyniaethus tuag at Iddewon, ac yn gweld eu dychweliad yn ddigroeso.

Yna, gan weithio mewn parau/grwpiau, atebwch y cwestiwn isod:

Yn ôl y darn hwn, pa heriau a wynebodd goroeswyr yr Holocost wrth gael eu rhyddhau?

.....

.....

.....

.....

.....

Nawr gwyliwch **glip fideo 2**, lle mae Irene yn siarad am ei bywyd fel oedolyn ar ôl y rhyfel.

Yna, gan weithio mewn parau/grwpiau, atebwch y cwestiynau isod:

Yn seiliedig ar y dystiolaeth fideo, pa ffactorau ydych chi'n meddwl a helpodd Irene i ddelio â'r heriau a wynebodd fel goroeswr yr Holocost?

.....

.....

.....

.....

.....

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

Taflen Waith Myfyrwyr

Tasg 3 (parhad)

Ar ôl gwrando ar dystiolaeth Irene, a allwch chi nodi unrhyw fanteision neu werth ychwanegol wrth ddysgu am yr Holocost gan oroeswr yr Holocost (gan adeiladu ar y drafodaeth yn **Nhasg 1**)?

.....

.....

.....

Tasg 4

Ystyriwch y datganiad:

Goroeswyr yr Holocost oedd y rhai lwcus.

Ysgrifennwch ymateb i'r datganiad hwn. Ceisiwch gyfeirio at y dystiolaeth rydych chi wedi'i dadansoddi yn ystod y wers hon – yn enwedig tystiolaeth fideo Irene – a chynnwys eich meddyliau a'ch myfyrdodau eich hun.

Efallai y byddwch hefyd am fyfyrio ar y cwestiwn canlynol fel rhan o'ch ymateb:

Beth yw'r ffordd orau i lywodraethau, elusennau, asiantaethau cymorth ac unigolion helpu teuluoedd sy'n dianc rhag rhyfel neu erledigaeth mewn gwlad arall ?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

Activity 8: Prydain a Cholled Etifeddol - Rhan 2

USC Shoah Foundation | IWITNESS

JHASW/CHIDC

Taflen Waith Myfyrwyr

Tasg 4 (parhad)

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation